



Mesur Effaith Gwirfoddoli - Gwybodaeth i sefydliadau



Beth yw effaith?

Newid neu fudd hirdymor yw effaith, y mae pobl yn ei brofi o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Canlyniadau yw newidiadau a buddion sy'n digwydd yn ystod oes y prosiect neu'r gweithgaredd gwirfoddoli.

Gwyddom y gall gwirfoddoli arwain at newid cadarnhaol i wirfoddolwyr megis:

- Mwy o hunanhyder.
- Sgiliau gwell.
- Mwy o ymdeimlad o les.

Ond sut ydym yn gwybod bod gwirfoddolwyr yn profi'r buddion hyn? I fesur effaith, rhaid i chi gasglu tystiolaeth ar ganlyniadau yn gyntaf. Effaith yw effaith gronol y canlyniadau a gyflawnir.



Canlyniadau i bwy?

Pan feddylwch am asesu canlyniadau prosiect neu wasanaeth, gallwch fesur nifer fawr o fathau o ganlyniad.

Er enghraifft, gallech ganolbwyntio ar y:

- Canlyniadau i'r gwirfoddolwr o'u profiad gwirfoddoli.
- Canlyniadau i'r defnyddiwr gwasanaeth o wasanaeth a ddarperir gan wirfoddolwyr.
- Canlyniadau i sefydliad neu bartneriaeth y rhaglen wirfoddoli.

Nid ydych wedi eich cyfyngu i'r hyn a fesurwch ac a aseswch. Yr un beth sy'n debygol o effeithio ar yr hyn rydych yn canolbwyntio arno yw capasiti ac amser.





Dylai canlyniadau:

- Ganolbwyntio ar y cleient a/neu wirfoddolwr.
- Bod yn glir a defnyddio iaith bendant.
- Bod yn weladwy a mesuradwy.
- Bod yn realistig a chyraeddadwy.
- Dangos cynnydd.

Gall canlyniadau fod yn galed neu'n feddal. Mae canlyniadau caled yn hawdd eu hasesu a phrofi e.e. mwy o wirfoddolwyr yn mynychu'r gweithdy. Mae canlyniadau meddal yn fwy anodd eu hasesu ond yn aml yn arwydd o newid parhaus. Mae canlyniadau meddal yn ymwneud â theimladau.

Enghreifftiau:

- Cleientiaid yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus.
- Gwirfoddolwyr yn adrodd eu bod yn gallu cefnogi cleientiaid yn well o ganlyniad i'r hyfforddiant.



Model Rhesymeg Rhaglen

Dengys y Model isod bob agwedd ar faes prosiect neu wasanaeth y gellir ei werthuso i ni. Byddwch yn gweld bod canlyniadau yn arwain at effaith.

MEWNBYNNAU

Y cynhwysion – staff, gwirfoddolwyr, adnoddau, adeiladau, cyllid.

PROSES

Y ffordd yr ydym yn darparu'r prosiect.

ALLBYNNAU

gweithgareddau a ddarparwn - e.e. gwirfoddoli.

CANLYNIADAU

Y gwahaniaethau neu'r newidiadau rydym yn gobeithio eu gwneud ym mywydau defnyddwyr gwasanaeth neu wirfoddolwyr.

EFFAITH

Y newidiadau hirdymor yn nefnyddwyr gwasanaeth, gwirfoddolwyr, cymunedau, cymdeithas.



Pam mesur canlyniadau ac effaith?

Mae mesur canlyniadau ac effaith hirdymor yn eich caniatáu i ddangos y gwahaniaethau rydych yn eu gwneud. Efallai yr hoffech:

- Annog cyd-ddealltwriaeth o'r hyn y gellir ei gyflawni.
- Annog gwirfoddolwyr i weld eu cynnydd, gan adeiladu ar eu hyder ymhellach.
- Casglu tystiolaeth i ddylanwadu ar bolisi a strategaeth.
- Dangos i gyllidwyr beth mae eu harian yn ein galluogi ni i'w gyflawni.
- Annog cyllidwyr newydd i fuddsoddi mewn rhaglenni gwirfoddoli.
- Amlygu i ddarpar wirfoddolwyr beth y gallent elwa ohono wrth ymuno â'ch sefydliad.
- Dangos pwysigrwydd y swyddogaeth wirfoddol i'r Bwrdd ac uwch reolwyr.
- Arddangos i bartneriaid beth ydych yn ei gynnig a sut y gallech gydweithio.
- Ein galluogi i adnabod beth sydd angen ei newid neu wella – beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio.

Gall gwirfoddoli gael effaith gadarnhaol ar y gwirfoddolwyr eu hunain, yn ogystal â chleientiaid, sy'n ymgysylltu â'r gwirfoddolwyr. Er enghraifft, gall gwirfoddolwyr sydd â phrofiad go iawn uniaethu'n hawdd â phrofiad, heriau a theimladau defnyddwyr gwasanaeth. Er enghraifft, gall prosiectau mentora cyfoedion ym maes iechyd meddwl elwa'n fawr o wirfoddolwyr sydd â phrofiad go iawn. Drwy ddeall pam a sut mae newid yn digwydd, gallwch ddysgu am yr hyn sy'n gweithio a ddim yn gweithio. Mae mesur canlyniadau ac effaith yn eich caniatáu i ddatblygu a gwella'r hyn a wnewch yn barhaus.

Sut ydych yn mesur?

Cwestiynau allweddol i'w hateb yw:

- Beth ydych chi'n ceisio ei ddangos a phwy yw'r gynulleidfa?
- Pa ddata fyddwch chi'n ei gasglu?
- Sut fyddwch chi'n adrodd y data a sut fyddwch chi'n ei ddefnyddio?



Beth ydych chi'n ceisio ei ddangos a phwy yw'r gynulleidfa?

Mae'n bwysig meddwl am y canlyniadau rydych yn gobeithio eu cyflawni drwy eich gwaith. Rydym bob amser yn ysgrifennu canlyniadau gan ddefnyddio geiriau newid. Rhai enghreifftiau yw: Gwell, mwy, llai, lleiaf, mwyaf...

Drwy ddefnyddio geiriau newid, gallwch werthuso sut oedd pethau ar ddechrau'r rhaglen wirfoddoli (y waelodlin e.e. pa mor hyderus oedd y gwirfoddolwr?) ac yna mesur y gwahaniaeth yn eu lefel hyder o ganlyniad i'w gwirfoddoli.



Dangosyddion Perfformiad Allweddol a chasglu data

Yn gyntaf, nodwch yr arwyddion byddwch yn chwilio amdanynt i ddangos y newid sydd wedi digwydd – gelwir yr arwyddion hyn yn 'Dangosyddion Perfformiad Allweddol' (KPIs). Yna, penderfynwch a oes gennych ddiddordeb mewn dangosyddion perfformiad allweddol ynglŷn â maint neu ansawdd, neu'r ddau? Mae data meintiol yn cynnwys:

- nifer y gwirfoddolwyr?
- nifer yr oriau gwirfoddol?

- data amrywiaeth h.y. % y bobl o grwpiau ethnig gwahanol, oedrannau gwirfoddolwyr.

Mae data ansoddol yn ddefnyddiol fodd bynnag, gan y gall roi'r stori y tu ôl i'r ystadegau.

- Beth yw barn gwirfoddolwyr am...?
- Pa mor hyderus mae gwirfoddolwyr yn ei deimlo...

Mae data ansoddol yn ddisgrifiadol ac yn ymwneud â theimladau, safbwyntiau, galluoedd, etc...

Mae sawl ffordd o gasglu data, ond os ydych eisiau ymgysylltu â gwirfoddolwyr y syniad gorau yw gwneud y dulliau'n ddifyr, creadigol ac wedi'u cyd-ddylunio gan y gwirfoddolwyr eu hunain. Dyma rai ffyrdd syml o gasglu data gwirfoddoli:

- Cofnodi oriau gwirfoddol
- Cofnodi ystadegau amrywiaeth
- Arsylwi
- Cofnodion dysgu
- Cyfnodolion a dyddiaduron – ysgrifenedig, clywedol neu fideo
- Arolwg gwirfoddolwyr blynyddol
- Gofyn am adborth gan wirfoddolwyr a defnyddwyr gwasanaeth



- Astudiaethau achos
- Tystebau
- Goruchwyllo a chyfarfodydd tîm

Sut fyddwch chi'n adrodd y data a sut fyddwch chi'n ei ddefnyddio?

Drwy gasglu data ar ganlyniadau yn rheolaidd, gallwch ddangos effaith gyffredinol eich gweithgareddau gwirfoddoli:

- Rhannwch yr wybodaeth yn fewnol a gyda phartneriaid.
- Rhowch wybod i gyllidwyr.
- Rhannwch eich canfyddiadau a dangoswch lwyddiannau achos - yn eich cyfarfod cyffredinol blynyddol, mewn digwyddiadau partner ac ar-lein.
- Ysgrifennwch a chyhoeddwch astudiaethau achos ar wirfoddolwyr a chleientiaid, o brosiectau dan arweiniad gwirfoddolwyr.
- Defnyddiwch yr wybodaeth i ddylanwadu yn allanol e.e. i fwydo i mewn i ymgynghoriadau ar wasanaethau a pholisïau.
- Defnyddiwch y data mewn ceisiadau am gyllid a chontractau am wasanaethau yn y dyfodol.



Cysylltiadau lleol

Bydd eich Cyngor Gwirfoddol Sirol yn gallu eich cefnogi a chynghori ar effaith a chanlyniadau.

Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (SCVS)

 **01792 544000**

 **volunteering@scvs.org.uk**

Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot (NPTCVS)

 **01639 631246**

 **info@nptcvs.org.uk**



